Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mewnwelediad data
Hydref 2021

# Pwy sy'n unig yng Nghymru?

Mae unigrwydd yn broblem eang, gydag arolygon yn awgrymu bod un o bob chwech o boblogaeth Cymru yn unig (Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llywodraeth Cymru, 2020; Llywodraeth Cymru, Swyddfa Ystadegau Gwladol 2020a; 2020b). Mae unigrwydd yn cael effaith sylweddol ar iechyd a lles ac mae'n gysylltiedig â risg uwch o iselder a marwolaethau cynnar (Ymgyrch i Ddiweddu Unigrwydd, 2021). Mae yna wahanol fathau o unigrwydd: unigrwydd emosiynol (absenoldeb perthnasoedd agos), ac unigrwydd cymdeithasol (absenoldeb rhwydweithiau cymdeithasol ehangach). Mae unigrwydd 'cyffredinol' yn ymgorffori'r ddau (De Jong Gierveld a Van Tilburg, 2010).

Mae mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol wedi'i nodi fel blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2020) ac mae'n un o'r ffyrdd y mae Cymru yn mesur cynnydd tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yr allwedd i fynd i'r afael ag unigrwydd yw deall pwy yng Nghymru sy'n unig a sut mae unigrwydd yn effeithio ar wahanol grwpiau.

Dyma'r cyntaf o gyfres o fewnwelediadau ar unigrwydd yng Nghymru yn seiliedig ar ddadansoddiad pwrpasol o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Dyluniwyd y gyfres i roi gwell dealltwriaeth i lunwyr polisi a gwasanaethau cyhoeddus o bwy sy'n unig fel y gellir cynllunio a darparu cyllid ac ymyriadau i fynd i'r afael ag unigrwydd yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae'r mewnwelediad data hwn yn cyfuno gwerth tair blynedd[1] o ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru i nodi lefelau unigrwydd cyffredinol, emosiynol a chymdeithasol ymhlith gwahanol grwpiau. Gweler Hodges ac eraill (2021) am fanylion ar y fethodoleg.

## Darllenwch y mewnwelediadau data eraill yn y gyfres hon

Hodges, H., Goldstone, R., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021). **Oedran ac unigrwydd yng Nghymru**. Caedydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hodges, H., Goldstone, R., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021). **Iechyd ac unigrwydd yng Nghymru**. Caedydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Goldstone, R., Hodges, H., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021). **Unigrwydd yng Nghymru yn ystod pandemig y coronafeirws**. Caedydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

[1] Rydym wedi cyfuno'r setiau data diweddaraf gan Arolwg Cenedlaethol Cymru ar unigrwydd (2016/17, 2017/18, a 2019/20), gan gynnwys cyfanswm o 30,912 o ymatebion unigryw. Ni ofynnwyd cwestiynau am unigrwydd fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19. Mae'r mewnwelediad data hwn yn tynnu ar ddadansoddiad deunewidyn a gynhaliwyd yn fersiwn 26 SPSS,
gan ddefnyddio croes-dabliadau a phrofion chi (x) sgwâr i nodi lle mae gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol (0.05%) yn bodoli rhwng grwpiau. Mae'r holl wahaniaethau grŵp a adroddir yma yn ystadegol arwyddocaol.

# Prif ganfyddiadau

### Oedran

Mae grwpiau oedran iau yn fwy unig na grwpiau hŷn, gyda lefelau unigrwydd ymhlith y rhai 65+ oed yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

### Rhywedd

Mae gan fenywod lefelau uwch o unigrwydd cyffredinol ac emosiynol na dynion, tra bod gan ddynion lefelau uwch o unigrwydd cymdeithasol.

### Y Gymraeg

Mae’r di-Gymraeg yn fwy unig na siaradwyr Cymraeg.

### Salwch neu anabledd hirdymor

Mae'r rhai sydd â salwch neu anabledd hirdymor yn fwy unig na'r rhai sydd heb y cyflyrau hyn.

### Statws priodasol

Mae'r rhai sy'n sengl, wedi'u gwahanu neu wedi ysgaru yn fwy unig na grwpiau eraill, gyda'r rhai sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig o'r un rhyw y lleiaf unig.

### Cyfeiriadedd rhywiol

Mae'r rhai nad ydynt yn nodi eu bod yn heterorywiol neu'n syth yn fwy unig na'r rhai sy'n gwneud hynny.

### Crefydd

Mae Cristnogion a'r rhai heb grefydd yn llai unig na grwpiau crefyddol eraill. Cristnogion yw'r lleiaf unig o bob grŵp crefyddol.

### Iechyd cyffredinol

Mae'r rhai mewn iechyd gwaeth yn fwy unig na'r rhai sydd mewn iechyd gwell, gyda'r rhai mewn iechyd cyffredinol gwael iawn yn arbennig o unig.

### Ethnigrwydd

Mae'r rhai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy unig na'r rhai sy'n Wyn Prydeinig. Mae unigrwydd cymdeithasol ar ei uchaf ymhlith y grŵp 'Gwyn – arall', tra bod unigrwydd emosiynol ar ei uchaf ymhlith grwpiau ethnig eraill.

### Amddifadedd

Mae lefel amddifadedd ar sail ardal yn gysylltiedig ag unigrwydd, gyda'r rhai sy'n byw yn yr 20% o leoedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru y mwyaf unig.


### Math o gartref

Mae'r rhai sy'n byw mewn cartrefi un oedolyn yn fwy unig na'r rhai mewn mathau eraill o gartrefi. Aelwydydd un rhiant sy'n nodi'r lefelau uchaf o unigrwydd cyffredinol.

### Addysg


Mae'r rhai sydd â lefelau uwch o addysg yn nodi lefelau uwch o unigrwydd cymdeithasol, tra bod unigrwydd emosiynol yn cynyddu wrth i lefel yr addysg ostwng.

# Oedran




Unigrwydd cyffredinol
Unigrwydd emosiynol
Unigrwydd cymdeithasol
40%
35%
30%
25%
20%
15%
10%
5%
0%
16-24
25-44
45-64
65-74
75+
Cyfartaledd Cenedlaethol


# Rhywedd


Unigrwydd cyffredinol
Unigrwydd emosiynol
Unigrwydd cymdeithasol
40%
35%
30%
25%
20%
15%
10%
5%
0%
Gwrywaidd
Benywaidd
Cyfartaledd Cenedlaethol


# Ethnigrwydd




# Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)




# Statws priodasol




# Cyfeiriadedd rhywiol




# Math o gartref




# Iechyd cyffredinol




# Salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor




# Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg



# Crefydd


Unigrwydd cyffredinol
Unigrwydd emosiynol
Unigrwydd cymdeithasol
50%
45%
40%
35%
30%
25%
20%
15%
10%
5%
0%
Dim crefydd
Cristion
Crefydd arall
Cyfartaledd Cenedlaethol

# Cymhwyster Addysgol Uchaf



## Myfyrdodau

Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at sut mae rhai grwpiau yn fwy tebygol o brofi unigrwydd nag eraill. Er enghraifft, mae bod mewn iechyd gwael iawn, byw ar eich pen eich hun, neu fod yn rhiant sengl yn gysylltiedig â chynnydd amlwg mewn unigrwydd. Mae'r data'n pwysleisio bod unigrwydd yn gysylltiedig ag anfantais sy'n gysylltiedig â ffactorau fel oedran, rhyw, hil, amddifadedd, rhywioldeb ac anabledd. Felly mae'n debygol y bydd hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn genedlaethol ac yn lleol yn helpu i leihau unigrwydd. Er y gall dulliau fel rhagnodi cymdeithasol a chyfeillio chwarae rhan bwysig, mae datblygu strategaethau sy'n adlewyrchu'r ffyrdd amrywiol y gall unigrwydd effeithio ar wahanol grwpiau a mynd i'r afael ag achosion strwythurol anfantais yn hanfodol.

Nid yw'r canfyddiadau hyn yn dweud wrthym beth sy'n digwydd pan fydd sawl ffactor sy'n dylanwadu ar unigrwydd yn croestorri – er enghraifft, iechyd gwael, amddifadedd ac ethnigrwydd. Mae rhoi sylw i groesdoriadau o'r fath yn hanfodol o ystyried eu tebygolrwydd. Mae'r mewnwelediadau eraill yn y gyfres hon, ar 'Oedran ac unigrwydd' ac 'Iechyd ac unigrwydd cyffredinol', yn dechrau llenwi'r bwlch hwn trwy ddadansoddiad croestoriadol. Maent yn tynnu sylw at y risg acíwt o unigrwydd a wynebir gan bobl sy'n profi sawl math o anfantais a phwysigrwydd cyllid ac ymyriadau sydd wedi'u targedu i'w cefnogi mewn polisi a gwasanaethau cyhoeddus.

**Awduron:** Ross Goldstone, Dr Helen Hodges, Dr Hannah Durrant, Emma Taylor Collins

## Ffynonellau

Ymgyrch i Ddiweddu Unigrwydd (2021). **The facts on loneliness**. Cyrchwyd o https://www.campaigntoendloneliness.org/the-facts-on-loneliness/

De Jong Gierveld, J., a Van Tilburg, T. 2010. **The De Jong Gierveld short scales for emotional and social loneliness: tested on data from 7 countries in the UN generations and gender surveys**. European Journal of Ageing. 7(2): 121-130. DOI 10.1007/s10433-010-0144-6

Hodges, H., Goldstone, R., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021). **Mewnwelediadau data unigrwydd: Atodiad methodolegol.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llywodraeth Cymru (2020). **Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-2017** [casgliad data]. Gwasanaeth Data'r Deyrnas Unedig. SN: 8301. Cyrchwyd o http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-8301-1.

Llywodraeth Cymru (2020). **Cysylltu Cymunedau: Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a chreu cysylltiadau cymdeithasol cryfach.** Cyrchwyd o https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/cysylltu-cymunedau-strategaeth.pdf

Llywodraeth Cymru, Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020a). **Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-2018** [casgliad data]. *2il argraffiad.* Gwasanaeth Data'r Deyrnas Unedig. SN: 8390. Cyrchwyd o http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-8390-2

Llywodraeth Cymru, Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020b). **Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2019-2020** [casgliad data]. Gwasanaeth Data'r Deyrnas Unedig. SN: 8718. Cyrchwyd o http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-8718-1

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Hannah Durrant**

Hannah.durrant@wcpp.org.uk

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG

www.wcpp.org.uk/cy | 029 2087 5345

info@wcpp.org.uk | @WCfPP